

Ap COVID-19 y GIG

Ap COVID-19 y GIG yw'r ffordd symlaf a chyflymaf o ddiogelu eich teulu, ffrindiau, cydweithwyr a'r gymuned leol rhag y coronafeirws. Lawrlwythwch a defnyddiwch yr ap heddiw.

20m

Mae dros 20m o bobl wedi lawrlwytho ap COVID-19 y GIG ac wedi mewngofnodi i leoliadau dros 80m o weithiau, gan helpu i dorri'r gadwyn drosglwyddo.



Mae ap COVID-19 y GIG yn defnyddio'r dechnoleg Apple a Google ddiweddaraf i ganfod lefel risg unigolyn o ddod i gysylltiad â'r feirws. Mae perfformiad yr ap yn "rhagorol" yn ôl y diffiniadau rhyngwladol.



Mae preifatrwydd yn ganolog i ap COVID-19 y GIG, nid yw'n gofyn am eich manylion personol ac mae'n defnyddio technoleg Bluetooth Ynni Isel.

Sut alla i lawrlwytho'r ap?



I lawrlwytho ap COVID-19 y GIG, chwiliwch am "NHSCOVID-19" yn App Store neu Google Play Store ar eich ffôn.



Sut mae'r ap yn gweithio - esboniad



Orlhain cysylltiadau

- Os byddwch yn dod i gysylltiad agos â rhywun sydd wedi profi'n bosiotif am y coronafeirws, bydd yr ap yn defnyddio **algorithm** soffistigedig i weithio allan y risg i chi a phennu a oes angen anfon rhybudd atoch.
- Bydd yn gwneud hyn trwy asesu'r pellter, dros amser, rhyngoch chi a'r person gafodd brawf positif, ac asesu pa mor heintus oedd y person hwnnw ar y dydd y buoch wrth ei ymyl.
- Os yw'r amser a dreulioch wrth ymyl y person yn 'sgorio' yn uwch na'r trothwy risg, byddwch yn wynebu risg uchel o ddal y feirws a'i basio i eraill, hyd yn oed heb wybod a bydd yr ap yn dweud wrthyh i hunanynysu.

Drwy hunanynysu byddwch yn torri'r gadwyn drosglwyddo a rheoli lledaeniad y feirws.

Unwaith y bydd yr ap COVID-19 y GIG wedi'i lawrlwytho, dylech ei gadw 'mlaen ar eich ffôn, dan do neu yn yr awyr agored. Dyma'r ffordd orau i sicrhau eich bod yn diogelu eich teulu, ffrindiau, cydweithwyr a chymunedau drwy'r amser, gan gynnwys mewn amgylcheddau COVID-ddiogel.



Mae ffonau'n 'gweiddi' ar ffonau eraill bob 3-5 mun

The ap yn gwarchod preifatrwydd ac gall pawb ei ddefnyddio'n ddi-enw. Nid yw'r ap yn gwybod pwy ydych chi na ble rydych wedi bod, felly nid yw'n gallu anfon eich enw na'ch rhif at unrhyw un.

Mae ap COVID-19 bellach yn gydweiddol â'r apiau olrhain cysylltiadau yn **yr Alban, Gogledd Iwerddon, Jersey a Gibraltar**. Bydd yn gallu anfon rhybudd os yw'n nodi eich bod wedi bod mewn 'cysylltiad agos' â phobl sy'n profi'n bositif am coronafeirws ac yn defnyddio Protect Scotland, AStopCovid NI, Jersey COVID Alery neu Beat COVID Gibraltar, ac i'r gwrthwyneb hefyd.



I wybod mwy am ap COVID-19 y GIG, ewch i <https://covid19.nhs.uk/>

Cwestiynau Cyffredin

Pa mor effeithiol yw ap COVID-19 y GIG?

Mae gan yr ap amryw o nodweddion, gan gynnwys: mewngofnodi i leoliadau, rhybuddion risg yn ôl ardal cod post, gwiriwr symptomau a bwcio prawf Mae'r ap wedi bod trwy brofion trylwyr ac rydym wedi cydweithio'n agos â Google ac Apple; gwyddonwyr Sefydliad Alan Turing a Phrifysgol Rhydychen; arbenigwyr meddygol; grwpiau preifatrwydd; cymunedau risg-uchel, a thimau mewn gwledydd dros y byd sy'n defnyddio apiau eraill tebyg i greu ap olrhain cysylltiadau sy'n ddiogel, hawdd ei ddefnyddio a diogel.

A fydd yr ap yn draenio batri fy ffôn?

Mae'r ap yn defnyddio "Bluetooth Ynni Isel" a bydd yn cael fawr ddim effaith ar fatri eich ffôn symudol.

Pa ddata a gesglir gan yr ap?



Mae'r ap yn casglu'r wybodaeth ganlynol ac yn ei chadw ar eich ffôn:


- Yr ardal cod post a roddoch wrth osod yr ap i fyny; h.y. rhan gyntaf eich cod post, cyn y gofod
- Y wybodaeth am symptomau a rowch i'r ap
- Codau QR y lleoliadau rydych yn eu sganio yn yr ap

Cewch weld yr holl ddata a gedwir ar eich ffôn a'u dileu unrhyw bryd.

Alla i gael fy adnabod os ydw i'n rhannu fy data?

Na. Nid yw ap COVID-19 y GIG yn cadw unrhyw wybodaeth a allai eich adnabod chi, ee eich enw cyfeiriad a dyddiad geni. Mae'r ap yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddfwriaeth Gwarchod Data. Bydd unrhyw ddata a roddir yn yr ap wastad yn ddi-enw, ac ni fydd modd i ni nac unrhyw un arall eich adnabod chi nac eraill.

Oes rhaid imi dalu i ddefnyddio'r ap?



Na. Mae Vodafone, Three, EE ac O2 (gan gynnwys giffgaff a Tesco Mobile), Sky a Virgin yn hepgor taliadau data yn yr ap. Ni chodir tâl ar gwsmeriaid am ddata wrth ddefnyddio'r ap neu os yw'r ap yn eu cyfeirio at wefannau'r GIG. Os caiff cwsmer ei gyfeirio at wefannau eraill tu allan i'r ap, gallai hynny ddefnyddio peth o'u lwfans data.